# GWILYM DDU O ARFON (fl. c. 1280-1320), bardd

**Enw:** Gwilym Ddu O Arfon
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

dywedir iddo drigo mewn llecyn a elwid yn Furiau Gwilym Ddu, ger Glynllifon (*Enwogion Sir Gaernarfon*). Erys ychydig o'i waith mewn llawysgrifau, ac yn ei blith ddwy awdl a ganodd i Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd pan oedd hwnnw yng ngharchar yng Nghastell Rhuddlan, ac awdl farwnad i Drahaearn Brydydd ap Goronwy, neu Drahaearn Brydydd Mawr (Jesus College MS. 1 - Llyfr Coch Hergest (1225, 1229)). Priodolir iddo englyn ar goroniad y brenin Edwart II yn 1307 (*Enwogion Sir Gaernarfon*). Dywedir ei fod yn fardd i'r tywysog Llywelyn ap Gruffudd (Edward Jones, *Relicks...*), ond ni chafwyd eto un enghraifft o'i farddoniaeth iddo.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards* (London 1784)

'Gweirydd ap Rhys', *Hanes Llenyddiaeth Gymreig, 1300–1650* (1885), 137

J. Jones ('Myrddin Fardd') *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922), 113


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Gwilym Ddu o Arfon

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q4134498

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu